DYSGU GYDOL OES yn y DU

Sgiliau i Broffesiynolion Dysgu

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Adolygiad Dysgu a Datblygu

4th Floor
36 Park Row
Leeds LS1 5JL
Ffôn: 0870 300 8110
Ffacs: 0113 244 3618

Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor
Ffôn: **020 7936 5798**
www.lluk.org

Cefndir

Mae Dysgu Gydol Oes yn y DU yn adolygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Dysgu a Datblygu. Diweddarwyd y Safonau ddiwethaf gan ENTO yn 2001, ac mae'r gyfres yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn 'addas i'r diben' ac yn dal i adlewyrchu'r swyddogaethau oedd wrth wraidd eu llunio'n wreiddiol.

Beth yw amcanion yr adolygiad?

- Adolygu'r Safonau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ymarfer presennol
- Datblygu Safonau newydd lle bo angen
- Hepgor Safonau os ydynt wedi dyddio ac/neu wedi eu dyblygu gan Safonau eraill
- Diffinio'r cymwysterau i fod yn seiliedig ar y Safonau newydd

Sut mae'r prosiect yn dod yn ei flaen?

Mae cam cyntaf y prosiect bellach wedi ei gwblhau. Gellir dod o hyd i adroddiad o'r casgliadau sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau ar wefan Dysgu Gydol Oes yn y DU: www.lluk.org/3655.htm.

Casglwyd adborth gan amrywiaeth o randdeiliaid. Cyfrannodd cyfanswm o 600 o bobl trwy arolwg ar-lein a mynychu nifer o grwpiau ffocws. Cafwyd adborth hynod o ddefnyddiol o'r digwyddiadau hyn a ddefnyddiwyd i ddiweddaru'r Safonau.

Bydd y cam nesaf yn:

- Cynhyrchu set ddrafft wedi'i diweddaru o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd. Yn dilyn hyn, cynhelir cyfnod o ymgynghori agored i adolygu'r set ddrafft hon ac archwilio a ydynt yn 'addas i'r diben'.
- Yna, gan ystyried prosesau gwahanol pob Gwlad, defnyddio'r safonau drafft i archwilio'r gofynion ar gyfer datblygu cymwysterau. Bydd hyn yn cynnwys nifer, maint a lefel, sut y dylid eu strwythuro a sut fyddant yn cael eu hasesu.

Mae pob cymhwyster a gymeradwyir gan Dysgu Gydol Oes yn y DU ac sy'n seiliedig ar y Safonau presennol wedi eu hymestyn tan Ragfyr 2010. Bydd hyn yn sicrhau fod gan sefydliadau dyrannu amser i ddatblygu cymwysterau a deunydd cefnogi yn seiliedig ar y Safonau newydd.

Sut i gymryd rhan

Mae sawl dull, yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau ledled y DU, i ddarparu adborth ar yr adolygiad hwn. Cynhelir y cyfnod ymgynghori o ganol fis Tachwedd tan ddechrau mis Rhagfyr, pryd y gall unigolion:

- Adolygu'r Safonau drafft a rhoi sylwadau ar eu cwmpas a'u cynnwys
- Adolygu manylion y cymwysterau arfaethedig yn cynnwys maint a chynnwys

Cynghrair Cynghorau Sgiliau Sector

Sgiliau i Broffesiynolion Dysgu

- Ystyried sut fydd y cymwysterau arfaethedig hyn yn cael eu hasesu ac adolygu'r strategaethau asesu drafft

Os ydych yn aelod o sefydliad neu yn rhan o rwydwaith, byddem yn eich annog i arwain eich digwyddiad eich hun i ymgynghori ar ddrafft y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Bydd deunydd ar gael o'r wythnos yn cychwyn 9 Tachwedd i'ch cynorthwyo gyda hyn. Gallwch fynegi diddordeb mewn trefnu un o'r digwyddiadau hyn gan ddefnyddio'r ffurflen archebu sydd ar gael ar wefan Dysgu Gydol Oes yn y DU.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch hefyd gyrchu'r Safonau drafft a rhoi adborth i Dysgu Gydol Oes yn y DU.

Pwy ddylai gymryd rhan yn yr adolygiad?

Hoffem glywed gennych os ydych yn cymryd rhan yn natblygiad ac/neu ddarpariaeth dysgu galwedigaethol achrededig neu heb ei achredu; neu os ydych yn defnyddio'r Safonau i ddarparu ac/neu ddatblygu cyfleoedd dysgu i gefnogi eich swyddogaethau busnes.

Ffynonellau gwybodaeth

- Os hoffech gymryd rhan yn yr ymgynghoriad trwy naill ai fynychu digwyddiad a drefnir, neu trwy arwain eich ymgynghoriad eich hun, ewch i dudalen y prosiect ar y we: www.lluk.org/3655.htm
- Ceir rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn: www.ukstandards.org.uk
- Gellir dod o hyd i'r corff ariannu, Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, yn: www.ukces.org.uk

CYSWLLT

Tîm Prosiect Adolygiad NOS

Dysgu Gydol Oes yn y DU

E-bost: nosproject@lluk.org

Ffôn: 0870 300 8110